CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

BLAENRAGLEN WAITH

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

20 Ebrill 2021

Swyddog Cyswllt:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg
E-bost:	MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Ffôn:	01248 756211

Rhif	Dyddiad	Pwnc	Rheswm am adrodd	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
1	25 Mai 2021	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Adroddiad y Cadeirydd	Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i'r rhai hynny 'sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
2	25 Mai 2021	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21	Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sicrwydd a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg.	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk

Rhif	Dyddiad	Pwnc	Rheswm am adrodd	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
3	23 Mehefin 2021	Adroddiad Drafft y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21	Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2020/21 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2021/22.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
4	20 Gorffennaf 2021	Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21	Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor felly: • gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2020/21 gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21, • derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk
5	20 Gorffennaf 2021	Adroddiad Blynyddol Perfformiad Yswiriant 2020/21	Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am sut mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau sicrwydd dros y bum mlynedd ddiwethaf a'i heriau ar gyfer y dyfodol. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y sicrwydd a roddwyd.	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk Rheolwr Yswiriant a Risg JulieJones@ynysmon.gov.uk

Rhif	Dyddiad	Pwnc	Rheswm am adrodd	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
6	20 Gorffennaf 2021	Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2020/21	Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, mae disgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk